# Cipolwg ar eich archwiliad

Cefais y cyfrifon drafft ar 29 Medi 2025, a oedd ar ôl terfyn amser Llywodraeth Cymru, sef 30 Mehefin 2025. Er fy mod o'r farn bod y cyfrifon drafft yn foddhaol i raddau helaeth, roedd lefel uchel o gywiro'n ofynnol.

Cyhoeddais farn ddiamod ar gyfrifon 2024-25, gan wneud hynny ar ôl terfyn amser Llywodraeth Cymru, sef 31 Hydref 2025. Roedd pum camddatganiad nas cywirwyd yn y cyfrifon. Nid oedd unrhyw faterion arwyddocaol eraill i'w nodi.

Canfu fy ngwaith archwilio perfformiad mai cyfyngedig yw effaith swyddogaeth graffu'r Cyngor, sy'n codi cwestiynau ynghylch ei gwerth am arian. Canfûm hefyd wendidau mewn trefniadau comisiynu sy'n creu risg nad yw'r Cyngor yn sicrhau gwerth am arian. Canfu fy adolygiad dilynol o reoli gwastraff fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran ymdrin â'm hargymhellion blaenorol, er bod risgiau sylweddol o hyd i weithredu ei strategaeth wastraff.

Fe gyflwynodd fy nhîm archwilio nifer o argymhellion i'r Cyngor a oedd wedi'u bwriadu i wella trefniadau craffu a chomisiynu. Yn y ddau adolygiad, fe gyflwynais argymhellion ynghylch gwerthuso effeithiolrwydd ac effaith trefniadau.

